O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 947 (Cy. 232)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) i Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed *6 Medi 2016*

Yn dod i rym *15 Medi 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Medi 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) i Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2.(1) - Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Medi 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw

i. y darn o brif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ddechrau'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug);

ii. y darn o brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ddechrau'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Nid yw darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.
Dyddiedig y 6 Medi 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.